

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Medi 4ydd, 2014 yn brydlon am 7-00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 3ydd, 2014.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned.
 2. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a gofal Stryd; Ail asesu blaenoriaeth trafndiaeth yng Ngroeslon Penybryn, Rhydycroesau.
 3. Technegydd Cludiant Gweithredol; Lloches bws Afonwen.
 4. Swyddog Llwybrau; Llwybr Clawdd Llanw, Bontfechan.
 5. Technegydd Traffig (dros dro); arwydd ar groeslon Tyddyn Sianel i rwystro loriau trwm rhag mynd drwy bentref Llanystumdwy.
 6. Adran Economi a Chymuned; Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer, Rheolwr Prosiect ein Treftadaeth – Paneli Ffynnon Cybi.
6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned y gwnaed sylwadau arnynt ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd/Cynghorwyr.
 1. Cais rhif C14/0685/41/LL – Gosod peiriant golchi loriau a chreu bwnd sgrinio; Glanllynau, Chwilog. Cefnogi; angen cymeradwyo.
 2. Cais rhif C14/0706/41/LL – Creu pwll slyri tanddaearol o fewn sied amaethyddol presennol; Maenllwyd, Pencaenewydd. Dim Gwrthwynebiad; angen cymeradwyo.
 3. Cais rhif C14/0558/41/LL – Newid defnydd tir o amaeth i gwrtil domestig a chodi garej/gweithdy; Lleifior, Llanygybi. Dim Gwrthwynebiad; angen cymeradwyo.

Yn ychwanegol gofynnwyd am sylwadau ar ddau gais y tu allan i'r gymuned hon; Penystumllyn, Cricieth ac arwyddion i siop fawr newydd yng Nghaernarfon! Ni anfonwyd sylwadau.

7. Holiadur angen am dai lleol.
8. Arolwg blynyddol offer Cae Chwarae Llanygybi.
9. Gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llannor.
10. Gohebiaeth oddi wrth Gyfeillion Llŷn.
11. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; Rali Flynyddol Na i or-ddatblygu Cymru – 2pm, Hydref 4ydd, Pwllheli.

12. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

1. Gor dyfiant ar gloddiau Llwyn yr Eryr. Mae gohebiaeth ynghylch hwn ar raglen heno, Cyngor Gwynedd, rhif 5 -1, Materion y Gymuned.

Llanystumdwy

1. Gwelediad y ddwy ochr i bont y pentref oherwydd coediach yn gor dyfu.
2. Angen barbio'r llwybr sydd yn mynd heibio Cyrion, yr hen ffordd i Abercin.

Chwilog

1. Cais i gael bws Caelloi i fynd drwy Lanarmon unwaith yn y bore ac unwaith yn y
pŵn.

Llangybi

1. y llwybr at Ffynnon Gybi trwy fynwent yr Eglwys.
2. Anesmwythyd lleol ynghylch Cartrefi Cymunedol Gwynedd:
 - a. eu bod yn defnyddio contractwyr o'r tu allan i Gymru.
 - b. eu bod yn rhoi "vouchers" prynu papur a phaent i'w tenantiaid eu cyfnewid mewn siop yn Llandudno; hyn yn peri anhwylystod mawr.

13. Materion heb gael ymateb iddynt.

14. Un Llais Cymru;

a. Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Llanelwedd, dydd Sadwrn Hydref
4ydd, 2014.

b. Cynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.